# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

*Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol*

### 1 Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol

(1) Mae person sy'n weithredwr syrcas deithiol yn cyflawni trosedd os yw'r person yn defnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol yng Nghymru, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny.

(2) At ddiben yr adran hon, mae anifail gwyllt yn cael ei ddefnyddio os yw'r anifail—

(a) yn perfformio, neu

(b) yn cael ei arddangos.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

### 2 Ystyr "gweithredwr"

Yn y Ddeddf hon, ystyr "gweithredwr" yw—

(a) perchennog y syrcas deithiol,

(b) person ac eithrio'r perchennog sy'n bennaf gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol, neu

(c) os nad yw'r naill na'r llall o'r personau a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b) yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol.

### 3 Ystyr "anifail gwyllt"

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "anifail gwyllt" yw anifail o fath nad yw wedi ei ddomestigeiddio yn gyffredin yn yr Ynysoedd Prydeinig.

(2) Er gwaethaf is-adran (1), caiff rheoliadau bennu at ddibenion y Ddeddf hon—

(a) math o anifail sydd i'w ystyried yn anifail gwyllt;

(b) math o anifail nad yw i'w ystyried yn anifail gwyllt.

(3) Yn y Ddeddf hon, mae i "anifail" yr un ystyr ag a roddir i "animal" gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (p. 45) (gweler adran 1).

(4) Yn is-adran (1), ystyr yr "Ynysoedd Prydeinig" yw'r Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

## 4 Ystyr "syrcas deithiol"

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "syrcas deithiol" yw syrcas sy'n teithio o un man i fan arall at ddiben darparu adloniant yn y mannau hynny.

(2) Mae "syrcas deithiol" yn cynnwys syrcas sy'n teithio fel a grybwyllir yn is-adran (1) at y diben a grybwyllir yno, er bod cyfnodau pan nad yw'n teithio o un man i fan arall.

(3) Er gwaethaf is-adran (1), caiff rheoliadau bennu at ddibenion y Ddeddf hon—

(a) math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant sydd i'w ystyried yn syrcas deithiol;

(b) math o ymgymeriad, perfformiad neu adloniant nad yw i'w ystyried yn syrcas deithiol.